Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.30 ar 10 HYDREF 2018, ym Mhrif Neuadd yr Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (Cadeirydd); Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Dr Gordon Allison; Yr Athro Richard Beardsworth; Yr Athro Paul Brewer; Dr Hazel Davey; Mr Tim Davies; Dr Gwion Evans; Dr Chris Finlayson; Yr Athro John Grattan; Dr Hywel Griffiths, Dirprwy Gadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Mr Nigel Hardy; Ms Meg Hatfield, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Sarah Higgins; Ms Louise Jagger; Dr Alex Mangold; Dr Louise Marshall; Dr Jamie Medhurst; Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Dr Ola Olusanya; Dr Maria Plotnikova; Dr Simon Rodway; Yr Athro Phillipp Schofield; Yr Athro Malcolm Thomas; Dr Victoria Wright; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

Aelodau heb bleidlais: Yr Athro Simon Cox; Yr Athro Iain Donnison; Yr Athro Andrew Evans; Dr Eurig Salisbury; a Dr Anoush Simon.

Yn gweinyddu: Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr Guy Baron; Ms Anna Wyn Jones, Swyddog Diwylliant Cymru UMAber a Llywydd UMCA; Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Yr Athro Bernard Tiddeman; a Mr Bruce Wight, Llywydd yr Undeb, UMAber.

1. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

1. Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol yn eu cyfarfod cyntaf fel aelodau o'r Senedd:

1. Dr Sarah Higgins, iMLA;

2. Meg Hatfield, Swyddog Materion Academaidd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber);

3. Dr Alex Mangold; aelod wrth gefn o'r Adran Ieithoedd Modern;

4. Dr Jamie Medhurst, aelod wrth gefn o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu;

5. John Morgan, Y Ganolfan Saesneg Ryngwladol;

6. Yr Athro Phillipp Schofield, Hanes a Hanes Cymru; a

7. Dr Victoria Wright, Seicoleg.

2. Erbyn hyn hefyd gwahoddir pob Pennaeth Adran i gyfarfodydd y Senedd, yn aelodau heb bleidlais, os nad oeddent wedi eu hethol i gynrychioli eu hadrannau.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. William Wolfgang Dieneman, cyn Lyfrgellydd yn y Brifysgol;

2. Yr Athro Ian Fletcher, cyn Athro yn Adran y Gyfraith;

3. Dr David Green, cyn Uwch Ddarlithydd yn yr Adran Economeg a Marchnata Amaethyddiaeth;

4. Yr Athro Emeritws Ieuan Gwynedd Jones, cyn Athro yn Adran Hanes Cymru;

5. Gareth Price; Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol; a

6. Yr Athro Meic Stevens, awdur ac ysgolhaig, a Chymrawd Anrhydeddus o'r Brifysgol.

3. Diwrnod Encil

Cynhaliodd y Senedd ddiwrnod encil ar y bore cyn y cyfarfod ffurfiol. Yn ystod y bore, canolbwyntiwyd ar ddatblygiadau yn y Brifysgol a chyd-destun ehangach addysg uwch, yn ogystal â gwaith i ddatblygu'r is-strategaethau Dysgu ac Addysgu, ac Ymchwil. Byddai copïau o'r cyflwyniadau'n cael eu rhoi ar SharePoint er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2018 (SEN1819-003).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1819-004).

NODWYD

1. Trosglwyddo marciau o sefydliadau eraill (cofnod 70.6)

1. Holodd rhai academyddion, a oedd eisoes mewn trafodaethau â rhai myfyrwyr ynglŷn ag astudio mewn sefydliad arall yn rhan o gynllun cyfnewid yn ystod 2019-

20, a oedd y newidiadau a gymeradwywyd yng nghyfarfod diwethaf y Senedd wedi dod i rym.

2. Roedd gwaith modelu wedi dechrau i gloriannu effaith y newidiadau y cytunwyd arnynt ar y drefn raeadru, ac fe fyddai aelodau'n cael clywed canlyniadau hyn ymhen amser (**GWEITHREDU:** Cofrestrydd Academaidd).

PENDERFYNWYD

3. Holi'r adrannau Mathemateg, a Chynllunio fel sy'n briodol yn rhan o'r modelu, am gyngor ynglŷn â'r newidiadau i'r drefn raeadru, a chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Academaidd fel sy'n ofynnol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

2. Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

5. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

6. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1819-005).

NODWYD

1. Roedd dwy brif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Ar 04 Hydref 2018, cytunodd y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio i gaffael gwasanaeth corff allanol ar gyfer cynnal yr arolwg effeithlonrwydd llywodraethu erbyn diwedd y flwyddyn academaidd, yn ôl gofynion Cod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion. Byddai'r arolwg yn cynnwys Gweithrediaeth y Brifysgol a'r drefniadaeth llywodraethu academaidd, a byddai aelodau'r Senedd yn cael eu gwahodd i gyfrannu i'r broses ymhen amser.

3. Bwriad yr Is-Ganghellor oedd sefydlu is-grŵp o staff, myfyrwyr, ac aelodau'r Cyngor i ddatblygu cynigion ynglŷn â nodi pen-blwydd y Brifysgol yn 150 yn 2022. Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu â'r Is-Ganghellor os oedd ganddynt ddiddordeb i wasanaethu ar yr is-grŵp. Roedd is-grŵp ar wahân yn cael ei sefydlu hefyd yn y Brifysgol i gydlynu cyfraniad y Brifysgol i drefniadau Eisteddfod Genedlaethol 2020.

4. Roedd y gwaith o ad-drefnu'r Gofrestrfa Academaidd bron â dod i ben. Roedd y rhai a benodwyd i swyddi rheoli eisoes wedi dechrau yn y swyddogaethau hynny ar 01 Hydref 2018, a byddai'r elfennau sy'n weddill o'r ad-drefnu yn dechrau ar 15 Hydref. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal â Phenaethiaid Adrannau i sicrhau bod y trosglwyddo'n digwydd yn hwylus.

7. YR AROLWG CENEDLAETHOL O FYFYRWYR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro (SEN1819-006).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r Brifysgol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr am 2018, ac roedd wedi ei ystyried yn fanwl gan y Bwrdd Academaidd ar 12 Medi 2018. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, roedd yr aelodau wedi canolbwyntio ar y camau y byddai angen eu blaenoriaethu ar lefel y Brifysgol yn ystod 2018-19.

8. MAGNA CHARTA UNIVERSITATUM

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN11819-007).

NODWYD

1. Yn ystod mis Mai 2018, roedd Arsyllfa Magna Carta wedi cysylltu â'r Is-Ganghellor, ac wedi annog y Brifysgol i ymuno â'r *Magna Charta Universitatum*.

2. Mae Magna Charta Universitatum - a lofnodwyd yn wreiddiol gan 388 o brifathrawon ac is-gangellorion prifysgolion o bob rhan o Ewrop a thu hwnt ar 18 Medi 1988 - yn cynnwys egwyddorion rhyddid academaidd ac annibyniaeth sefydliadol yn ganllawiau ar gyfer llywodraethu da a hunan-ddirnadaeth prifysgolion yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

3. Argymell i'r Cyngor y dylai'r Brifysgol ymuno â *Magna Charta Universitatum* (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

9. ARGYMHELLION O'R BWRDD ACADEMAIDD

1. Fframwaith yr Is-bwyllgorau Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (SEN1819-008).

NODWYD

1. Ar 20 Mehefin 2018, cytunodd y Cyngor mewn egwyddor i ad-drefnu pwyllgorau'r Brifysgol. Roedd yr adroddiad cyfredol yn egluro sut y cafodd fframwaith diwygiedig y pwyllgorau ei ddatblygu ymhellach dros yr haf, ac yn cynnig cylch gorchwyl ar gyfer pob pwyllgor. Roedd y fframwaith wedi ei ystyried ers hynny gan y Bwrdd Academaidd a Gweithrediaeth y Brifysgol, a'r cynigion wedi'u mireinio' briodol.

2. Trafodwyd aelodaeth arfaethedig y pwyllgorau newydd a/neu ddiwygiedig - yn enwedig yng nghyswllt cynrychiolaeth o'r Cyfadrannau newydd, ac a ddylai Dirprwy Is-Gangellorion a Deoniaid Cyswllt y Cyfadrannau hynny fod yn aelodau o rai o'r pwyllgorau.

3. Byddai hefyd angen adolygu dyletswyddau Penaethiaid Adrannau yng ngoleuni'r fframwaith Cyfadrannol newydd. Yn gysylltiedig â hyn, gofynnir i Ddirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau i drafod eu disgwyliadau ynglŷn ag aelodaeth pwyllgorau â'r Penaethiaid Adran perthnasol, gyda'r bwriad o gynnal cysondeb o ran arferion ledled y sefydliad.

4. Cydnabu'r aelodau y byddai fframwaith y pwyllgorau academaidd yn esblygu dros amser, ac y byddai'n briodol i bob pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl ar ôl rhai cyfarfodydd er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo'r ad-drefnu arfaethedig i'r pwyllgorau academaidd a'r cylchoedd gorchwyl drafft, yn amodol ar (**GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd):

    1. Cynnwys Dirprwy Is-Ganghellor a Deon Cyswllt Dysgu ac Addysgu pob Cyfadran yn aelodau o'r Bwrdd Academaidd am y cyfnod tan 07 Mawrth 2019; a

    2. Cynnwys Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn aelodau Pwyllgor Astudiaethau trwy'r Gymraeg.

6. Y dylai Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) gynnull grŵp ar ôl cylch Chwefror/Mawrth 2019 o gyfarfodydd y pwyllgorau academaidd er mwyn adolygu effeithiolrwydd y pwyllgorau, a chyflwyno crynodeb o argymhellion i'r Senedd ar 27 Mawrth 2019 (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

2. ‘The Wheel’

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Ansawdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (SEN1819-009).

NODWYD

1. Datblygwyd cynnig i ddarparu gradd BA Actio o fis Medi 2019 ymlaen trwy gyfrwng cytundeb trwyddedig rhwng Cwmni Hyfforddiant *The Wheel* yn Plymouth a Phrifysgol Aberystwyth. Roedd yr adroddiad yn cynnwys copi o'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth arfaethedig â *The Wheel*, ac yn cadarnhau bod *The Wheel* wedi sicrhau statws elusennol er mwyn i'r cytundeb trwyddedig arfaethedig fynd yn ei flaen.

2. Pan fyddai'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth wedi ei gytuno gan y Senedd, gallai PA ychwanegu’r cytundeb trwyddedig i gynllun Ffioedd a Mynediad 2019-20, trwy atodiad y byddai angen ei gymeradwyo gan y Cyngor Cyllido.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth arfaethedig rhwng PA a Chwmni Hyfforddi *The Wheel* i ddarparu gradd BA Actio o fis Medi 2019 ymlaen (**GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd (Partneriaethau Academaidd)).

3. Dyfarnu Graddau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Gofrestrfa Academaidd (SEN1819-010).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnig newid i ddull cyfredol y Brifysgol o ddyfarnu graddau, lle byddai’r dyfarniadau'n cael eu rhoddi'n ffurfiol ym Myrddau Arholi'r Senedd yn hytrach na'r seremonïau gradd traddodiadol. Byddai newid o'r fath yn cyd-daro ag arferion gweddill y sector, gan fod prifysgolion eraill eisoes wedi symud i drefniadau tebyg.

2. Byddai rhoddi graddau ym Myrddau Arholi'r Senedd yn arbennig o fanteisiol i'r myfyrwyr hynny sydd ar hyn o bryd yn graddio ar adegau ansafonol yn y flwyddyn academaidd. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i fyfyrwyr aros tan y Cynulliad gradd

nesaf i dderbyn eu dyfarniad, neu ddewis graddio *in absentia* er mwyn cael eu dyfarniad ar unwaith. Byddai'r trefniadau newydd yn golygu y gallai'r holl ddarpar raddedigion ddewis mynd i gynulliad gradd pe dymunent.

3. Cynigiwyd hefyd y dylid ymestyn cynulliadau gradd y Brifysgol i gwmpasu pob un o ddyfarniadau addysg uwch y sefydliad, gan gynnwys y rhai sy'n cymhwyso am dystysgrifau a diplomâu. Croesawyd hyn yn arbennig gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD

4. Cytuno i gynigion i roddi dyfarniadau academaidd yn ffurfiol ym Myrddau Arholi'r Senedd, ac i ymestyn y cynulliadau gradd i ddathlu cyflawniadau pob un o'r myfyrwyr sy'n ennill dyfarniadau addysg uwch y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Cofrestrydd Academaidd).

10. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad gan Arolygydd yr Arholiadau (SEN1819-011);

2. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN1819-012);

3. Grantiau Ymchwil (SEN1819-012);

4. Gwobrau Academaidd a ddyfarnwyd yn ystod 2017–18 (SEN1819-014); a

4. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN1819-015).

NODWYD

5. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

11. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN1819-016):

1. Y Bwrdd Academaidd (12 Medi 2018);

NODWYD

2. Yr adroddiad a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgor.

12. UNRHYW FATER ARALL

1. <u>Sgwrs Mis Hanes Pobl Dduon</u>

I anrhydeddu Mis Pobl Dduon, trefnwyd anerchiad cyhoeddus gan yr Athro Kehinde Andrews yn sinema Canolfan y Celfyddydau yn syth ar ôl cyfarfod y Senedd. Anogwyd pob aelod i fod yn bresennol.